DEWI JONES, Dyffryn Nantlle, yn dwyn i gof 'WILL BOOTS' 1805–1861

# CASGLWR PLANHIGION ERYRI

DAETH mynydda yn boblogaidd yn Ewrob yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Adwaenid y cyfnod rhwng 1855 a 1865 fel "oes aur yr Alpau" pryd yr anfarwolwyd enwau mynyddwyr fel Edward Whymper, John Tyndall a C. E. Mathews ynghŷd â'r tywysyddion ffyddlon, Melchior Anderegg, Michel-Auguste Croz, Jean-Antoine Carel, J. J. Bennen a'r teulu Taugwalder.

Nid yn unig yr oedd gwybodaeth gyfarwydd y gwerinwyr hyn o fynyddoedd eu mebyd o fudd mawr i'r dringwyr estronol, ond roedd hefyd yn ffasiynol yn yr oes honno i logi "guide".

Un o dywysyddion prysuraf y cyfnod oedd William Williams o Westy'r Victoria, Llanberis, gŵr a adwaenid yn lleol fel "Wil Boots". Yr oedd Wil yn rhagori ar y lleill am fod gwybodaeth arbennig iawn ganddo. Yr oedd yn awdurdod cydnabyddedig ar safleoedd planhigion prinnaf Eryri, gyda galw mawr am ei wasanaeth gan lysieuwyr a chasglwyr planhigion.

Ganed William Williams ym mhlwyf Llanfwrog, Sir Ddinbych yn 1805, ac aeth i wasanaeth fel marchwas pan oedd yn 13 oed. Bu'n gweithio i M. Turner, Abbots Bromley, swydd Stafford am 4 blynedd, ac wedyn yn y White Lion, Rhuthun, a'r Black Lion, Yr Wyddgrug fel gyrrwr.

Trin ceffylau y bu am y rhan fwyaf o'i oes a symudodd i fyw i Fangor yn ddiweddarach gan weithio yn y Penrhyn Arms a'r Liverpool Arms. Talodd am chwe mis o ysgol iddo ei hun yn ystod ei arhosiad ym Mangor a dyma'r unig gwrs o addysg swyddogol a dderbyniodd erioed.

Daeth i Lanberis tua 1832 a bu'n gweithio yng Ngwesty'r Dolbadarn ac wedyn yng Ngwesty'r Royal Victoria am dros 25 mlynedd pan ddaeth yn enwog fel y "Botanical Guide". Ni wn sut y datblygodd ei ddiddordeb mewn planhigion, a dywedodd un o hen dywysyddion yr ardal mai grisial a phryfetach oedd ei ddiddordebau cyntaf.

Mae'n bur debyg fod gwybodaeth Wil wedi ei gyfyngu i blanhigion prin y mynyddoedd gan mai dyma gyfnod chwiw casglu rhedyn a bod modd gwneud elw o wybodaeth o'r math hwn.

* * * * *

YR OEDD yn adnabyddus i lawer o brif Lysieuwyr yr oes, ac mae'n sicr iddo elwa'n fawr o'i gysylltiad â Charles Cardale Babington (1808-1895), a ddaeth yn Athro Llysieueg yng Nghaergrawnt. Yr oedd Babington yn ymwelydd cyson ag Eryri lle cai weld yn eu cynefin y planhigion y dysgai eraill amdanynt. Pa well sylfaen iddo ddarparu ar gyfer ei glasur "Manual of British Botany" a gyhoeddwyd yn 1843.

Yn 1854 cyhoeddodd Edward Newman (1801-1876) ei lyfr "A History of British Ferns" a gwelir ynddo ei fod yntau yn adnabod Wil. "William Williams", meddai ar dudalen 77, "an active and intelligent Snowdon Guide, is but too well acquainted with the Snowdonian station of both the Woodsias". (Cyfeiria Newman at y ddwy redynen Woodsia ilvensis a'r Woodsia alpina). "I dont think he would willingly exterminate them, but he is subject to such constant solicitations from botanical tourists to be conducted to the localities ..." Prawf pellach o'r gofyn mawr oedd am wasanaeth Wil.

* * * * *

CYFAILL arall iddo oedd William Pamplin (1806-1899), brodor o Chelsea a ddaeth i fyw i Landderfel lle ceisiodd sefydlu Planhigfa Lysieuol yn ganolfan ymchwil a diddordeb yn yr efrydiaeth honno, ond ofer fu ei ymdrech. Roedd gan Pamplin ac eraill air da i Wil, ond nid felly bawb o'r ymwelwyr a ddaeth i gysylltiad ag ef. Mewn ysgrif ar blanhigion Yr Wyddfa gan John Barton o Gaergrawnt a gyhoeddwyd yn Ebrill 1857 mae'r awdur yn cyhuddo Wil o'i gamarwain rhag iddo weld y planhigion prinnaf.

Dyma stori Barton. Roedd ef a chyfaill iddo wedi cerdded i ben Yr Wyddfa o Feddgelert lle gwelodd Wil, a oedd wedi dod â gŵr bonheddig i fyny o Lanberis i weld yr haul yn codi. Cychwynnodd Wil i lawr o flaen y lleill. Yn ddiweddarach pan oedd Barton a'i gyfaill yn dod i lawr o Fwlch Glas pwy welent yn dringo ar un o greigiau Clogwyn y Garnedd ond Wil.

Dywed Barton, "We had little doubt that he was engaged in a search after some rare plants, as he had the reputation of being well acquainted with almost every inch of the whole Snowdon district."

Aeth chwilfrydedd Barton yn drech nag ef acaeth i gyfarfod Wil i waelod y clogwyn. "He came down to us with a magnificent specimen of Aspidium lonchitis (Rhedyn Celyn) which he had just obtained from the heights above."

Wrth gyd-gerdded bu llawer o holi ar Wil ac yn ôl Barton addawodd ddangos iddynt safle'r rhedynen "Woodsia alpina" brin. Arweiniodd Wil hwy i fyny o Lyn Glaslyn i gopa Crib y Ddisgl, draw ar hyd y gefnen i Fwlch Coch, ac yna i lawr drwy Gwmglas Mawr i Fwlch Llanberis, ond heb weld y "Woodsia".

Medd Barton, "We were completely beguiled by a clever dodge of the botanical guide ..." Aeth ymlaen i ddweud y byddai'n arferiad gan Wil guddio neu drawsblannu rhedynau prin os credai eu bod yn tyfu mewn safleoedd hawdd i eraill eu gweld.

Cyhuddodd ef hefyd o dwyllo Newman ac awduron eraill drwy roi safloeoedd anghywir mewn ymateb i'w ceisiadau ar gyfer ymchwil i'w llyfrau. Wrth grynhoi mae Barton yn cynghori unrhyw lysieuydd maes ar ymweliad ac Eryri i beidio ag ymddiried yn neb na dim ond eu llygaid eu hunain a'r mapiau daeareg.

* * * * *

OND canmoliaeth mawr i Wil sydd mewn llythyr a ysgrifennwyd ym Mryn Tirion, Llandderfel yn Ionawr 1858 gan William Pamplin. Ynddo cawn hanes am Wil yn arwain Pamplin.

Cychwynnodd y parti am naw y bore o Reithordy Llanberis gan ymlwybro tua Bwlch Llanberis, ac wedi cyrraedd Pont y Gromlech arweiniodd Wil hwy i fyny'r llethrau serth o rug a cherrig i gopa'r Glyder fawr. Wedi oedi ennyd yma i fwynhau'r olygfa aethant ymlaen drwy ddilyn cwrs tua'r gogledd-ddwyrain a chanlyn Braich y Gribin i Gwm Idwal.

Cawn restr diddorol gan Pamplin o'r planhigion a ddangosodd Wil iddynt, gan gynnwys Brwynddail y Mynydd (Lloydia serotina) Edafeddog Fynyddig (Antennaria dioica) a'r Derig (Dryas octopetala).

Diddorol i mi oedd darllen fel y casglodd Wil enghreifftiau o'r Rhedyn Celyn (Polystichum lonchitis) a'r "Woodsia ilvensis" a'u rhoi i Pamplin. Mae'n ffaith drist nad oes yr un Redynen Celyn i'w gweld yng Nghwm Idwal heddiw ac mae'r "Woodsia ilvensis" yn rhyfeddol o brin hefyd.

Daeth y cwmni i lawr i Nant Peris drwy ddilyn yr hen lwybr o Lyn y Cŵn, wedi bod allan ar y mynydd o naw y bore hyd naw yr hwyr, a cherddwyd y rhan olaf o'r daith yng ngolau'r lleuad.

Mae Pamplin yn canmol Wil am ei wybodaeth lysieuol a'r modd y bu iddo sicrhau eu bod yn cael gweld cymaint o amrywiaeth planhigion ag a oedd yn bosib mewn diwrnod.

Ymddangosodd rhestr o blanhigion prin Yr Wyddfa mewn llawlyfr a gyhoeddwyd gan Humphreys, Caernarfon tua'r 1850au. Ar waelod y rhestr gwelir y nodyn a ganlyn. "We are favoured with the above List from the Visitor's Book of Mr William Williams, Guide to Snowdon from Llanberis."

Ar nos Sul olaf ei oes mynychodd Wil yr oedfa yng Nghapel Jerusalem (A), Llanberis, lle gwnaed casgliad elusennol i wraig weddw dlawd. Rhoddodd Wil bisin hanner coron a cheiniog ar y plât.

Tynnwyd sylw Wil at y swm gan y casglwr rhag ofn fod camgymeriad wedi ei wneud, ond atebodd Wil fod popeth yn iawn. Ymddengys iddo gyfrannu yr holl arian a feddai.

* * * * *

AM DDEG o'r gloch fore Iau, y 13 o Fehefin 1861 cychwynnodd Wil o Lanberis am ben Yr Wyddfa yng nghwmni gŵr a gwraig fonheddig. Yn ystod y daith gadawodd Wil y parti i fynd i gasglu planhigion, gan ailymuno â hwy yn hwyrach ymlaen.

Wedi cyrraedd y copa aeth ymaith yr eildro, ond y tro hwn ni ddychwelodd. Yr oedd Wil wedi dringo i lawr o'r copa hyd at lecyn y gwyddai fod planhigion o'r "Woodsia alpina" yn tyfu er mwyn eu cael i'r boneddigion. Yn sydyn, torrodd y rhaff a'i daliai, a chwympodd i'w farwolaeth.

Yn y cyfamser roedd y ddau ymwelydd oedd yn aros amdano ar y copa yn dechrau pryderu yn ei gylch, ac wedi aros am awr a hanner penderfynasant fynd i lawr i Feddgelert. Ond yr oedd mintai eisoes wedi ymgynnull i fynd i chwilio am Wil a daethpwyd o hyd i'w gorff yn ddiweddarach yng ngwaelod rhigol serth ar Glogwyn y Garnedd.

Claddwyd ef ym mynwent Eglwys nant Peris ar ddydd Sul, yr 16 fed o Fehefin, 1861. Y tro hwn cynhulliad o gyfeillion ac ardalwyr oedd yn canlyn yr hen "guide" ar ei daith olaf.

Cerfiwyd yr argraff canlynol ar garreg ei fedd:

*UNDERNEATH*
*LIE THE REMAINS OF*
*WILLIAM WILLIAMS*
*UPWARD OF TWENTY FIVE*
*YEARS BOTANICAL GUIDE*
*AT*
*THE ROYAL VICTORIA*
*HOTEL*
*WHO WAS KILLED BY A*
*FALL*
*FROM CLOGWYN Y*
*GARNEDD*
*JUNE 13 1861, WHILST*
*PURSUING*
*HIS FAVOURITE VOCATION*

*This Tombstone was erected to his memory by a few friends.*